Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 34 Calan 2016



*Ffoi i'r Aifft* gan José Cruz

**'Rhaid oedd i'r Iesu a'i rieni geisio lloches wleidyddol mewn gwlad ddieithr'**

*Annwyl ffrindiau,*

Mae'n beth rhyfedd i'w ddweud, ond mae 'na flas egr i'r Nadolig. Duw a'n gwaredo! Tymor o lawenydd, ewyllys da a thangnefedd yw Gŵyl y Geni, adeg i ddathlu dyfodiad Mab Duw i'r byd! Dyna'n wir oedd neges yr angel wrth y bugeiliaid: "Mae gen i newyddion da i chi! Newyddion fydd yn gwneud pobl ym mhobman yn llawen iawn. Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw, ym Methlehem (tref y Brenin Dafydd). Ie, y Meseia! Yr Arglwydd!" (Luc 2:10, 11 *beibl.net*). Ac wedi i'r bugeiliaid fynd i Fethlehem i weld y baban, aethant yn ôl i'w gwaith gan ganmol a moli Duw – a chawn y syniad fod pawb wedi byw'n hapus fyth wedyn.

Ond yna, fel draenen ar rosyn prydferth, fe ddown ar draws yr hanes am ladd y plant diniwed ym Methlehem a'r cyffiniau sy'n ein hatgoffa o'r realiti gwleidyddol fod rhai o unbenaethiaid y byd heddiw yn amharod iawn i oddef a chaniatáu'r gwrthwynebiad lleiaf i'w hawdurdod. Nid yn ysgafn yr ystyriwyd y newydd gan Herod am enedigaeth brenin newydd. Deliodd â'r bygythiad drwy ladd pob bachgen oedd yn ddwyflwydd oed neu lai – eu lladd i gyd er mwyn cael gwared â'r Un. O ganlyniad, bu'n rhaid i Joseff a Mair a'r baban Iesu ffoi am eu bywyd i'r Aifft a chuddio yno rhag llid Herod. Yn union fel y ffoaduriaid o Syria ac o wledydd eraill y Dwyrain Canol heddiw sy'n ceisio dianc rhag y bomio diddiwedd a'r ymladd parhaus, rhaid oedd i'r Iesu a'i rieni geisio lloches wleidyddol mewn gwlad ddieithr.

Nid oes angen unrhyw grebwyll hanesyddol arnom i sylweddoli na fu'r daith i'r Aifft, na'r arhosiad yno, yn un pleserus. Doedd teithio yn yr hen fyd ddim yn hawdd, yn arbennig os oeddech yn cludo baban. Er bod gennym ryw syniad yn ein meddyliau i Joseff a Mair deithio i'r Aifft ar gefn asyn, mae hynny'n bur annhebyg. Ar droed yr aethant, siŵr o fod. Dyna fyddai pobl o'u safle a'u statws hwy wedi'i wneud. Ac wedi iddynt gyrraedd yno, meddyliwch am yr ansicrwydd a fyddai'n eu hwynebu. Sut allai Joseff gynnal ei deulu yn yr Aifft? A fyddai'r Iesu'n ddiogel? A ddeuai Herod a'i filwyr o hyd iddynt? Fydden nhw fyth yn gallu mynd adref? Am ba hyd y byddai'n rhaid iddynt fod ar ffo? A ble roedd Duw yn hyn i gyd? Allai unrhyw ddaioni ddeillio o'r bennod erchyll hon yn eu bywyd?

Yn ôl haneswyr, mae'n bur debyg fod yna glwstwr o Iddewon yn byw yn yr Aifft yn y ganrif gyntaf, ac felly doedd Joseff a Mair a'r baban Iesu ddim ynghanol dieithriaid llwyr.

Byddent wedi gallu dal mewn cysylltiad â'u pobl, ac â'u traddodiadau, ac yn bwysicach fyth, â'u ffydd Iddewig. Hyd yn oed yn yr Aifft, ar adeg o berygl, ansicrwydd a phryder mawr, roedd Duw gyda hwy, yn eu harwain a'u nerthu i wneud eu rhan yng nghenhadaeth Crist.

Wrth gyrraedd pen talar y flwyddyn, gallwn ninnau hefyd ddiolch i Dduw am y nodded a'r cysur a gawn o fewn cymdeithas ei Eglwys. Nid ydym fyth ar ein pennau ein hunain, waeth pa mor fregus y teimlwn. Mae Duw gyda ni, yr *Immanuel,* yr Un sy'n ein deffro i angen ac eisiau ein byd. Am hynny, priod waith yr Eglwys heddiw, fel ym mhob cyfnod, yw darparu nodded i bawb sy'n ceisio lloches rhag y storm – y tlawd a'r gwan, y diobaith a'r anghenus, pawb a gaiff eu gormesu gan rymoedd y tywyllwch.

Daeth goleuni cariad Duw i'r byd ym mherson rhyfedd y baban Iesu a anwyd ym Methlehem ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Mae'r goleuni hwn yn dal i ddisgleirio heddiw yn nhywyllwch ein byd, ac ni fydd y tywyllwch fyth yn gallu ei ddiffodd (Ioan 1:5).

Goleuni'r byd yw Crist,
  Tywysog ein hachubiaeth,
y seren fore yw
  a gwawr ein gwaredigaeth.
Ein gobaith ydyw ef,
  perffeithydd mawr ein ffydd,
Diddarfod gariad yw
  sy'n troi pob nos yn ddydd.

G.W. Briggs,
*efel.* Dyfnallt Morgan

Pob bendith dros Ŵyl y Nadolig a dymuniadau gorau ar gyfer y flwyddyn newydd.

Yr eiddoch yng Nghrist,
*Wyn Morris* (Bugail)

# Tudalen y Plant



Tynnwch linell i ddangos i'r bugail sut i gyrraedd y stabl.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| S | J | O | S | E | FF | O |
| A | C | B | H | L | B | D |
| I | B | E | R | I | A | M |
| FF | G | I | P | T | B | N |
| T | R | B | C | O | W | G |
| I | A | L | F | J | U | P |
| U | D | O | G | I | D | W |

Yn y grid geiriau, rhowch gylch o gwmpas yr atebion i'r cwestiynau (Gallant fod wedi'u hysgrifennu i fyny, i lawr, neu tuag yn ôl.

1. Pwy oedd gŵr Mair?
2. I ba wlad y gwnaeth Iesu ffoi gyda'i dad a'i fam?
3. Pwy oedd gwraig Joseff?
4. Pwy oedd yn gofalu am y teulu ar eu taith?
5. Ym mha lyfr y mae'r hanes am eni'r baban Iesu?

Anfonwch y gwaith at y Gweinidog,
drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul
os dymunwch, erbyn **31 Ionawr.**
Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r
ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

Llongyfarchiadau i
**Niamh Hannah Deakin**,
Ysgol Sul Capel Seion, enillydd
tasg y rhifyn diwethaf.

*Manylion Cyswllt y Gweinidog:*
*Y Parch Wyn Morris,*
*Berwynfa, Penrhyn-coch,*
*Aberystwyth, SY23 3EW*
*01970 820939*
*berwynfa@btinternet.com*

## *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c*

| | |
|---|---|
| 25 Rhagfyr | Oedfa gymun deuluol am 9 o'r gloch fore'r Nadolig yng Nghapel y Garn dan arweiniad y Bugail |
| 13 Ionawr | Cwis blynyddol y Morlan am 7.30 o'r gloch |
| 20 Ionawr | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro Capel Bwlch-llan am 1.30 o'r gloch |
| 25 Ionawr | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 16 Chwefror | 'Cofio Canrif'yng Nghapel y Garn am 7.30 o'r gloch noson i nodi canmlwyddiant cyngerdd arbennig a gynhaliwyd gan artistiaid lleol a ffoaduriaid |
| 28 Chwefror | Oedfa Gŵyl Ddewi'r Ofalaeth dan arweiniad y Bugail Capel y Garn am 10 o'r gloch |
| 4 Mawrth | Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd |
| 25 Mawrth | Oedfa'r Groglith dan arweiniad y Bugail Capel Rehoboth am 10 o'r gloch |
| 27 Mawrth | Oedfa Gymun Basg yr Ofalaeth dan arweiniad y Bugail Capel y Garn am 10 o'r gloch |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn:
www.capelygarn.org

Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

# CIC

Mae CIC Capel y Garn wedi bod llawn cyffro y tymor yma.

Yn gynnar iawn yn y tymor fe gafodd yr ieuenctid gyfle i ymweld â'r bad achub yn Aberystwyth. Roedd yn ddiddorol clywed hanesion y bad achub ers iddo gyrraedd Aber. Dwi'n credu mai uchafbwynt y noson oedd cael eistedd ar y cwch ar dractor, cychwyn yr injan a chynnau'r golau glas.



Uchafbwynt arall y tymor oedd pan ddaeth Siôn Morris, Gweithiwr Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru, atom. Roedd y clwb yma'n wahanol oherwydd gwahoddwyd clybiau eraill i ymuno gyda ni ac roedd yn wych gweld pawb yn joio gyda'i gilydd. Fe gafodd yr ieuenctid gyfle i chwarae gyda'r Zorbs eto, a hefyd i wneud y 'Banana split' mwyaf yng Ngheredigion. Gorffennodd Siôn y clwb gan rannu bod Iesu wedi dod i dalu ein dyledion wrth fynd i'r groes adeg y Pasg



**CIC**

**Rhaglen**

**Gwanwyn 2016**

Bydd CIC yn cwrdd, dan ofal Zoe, ar y dyddiadau canlynol:

14 Ionawr; 28 Ionawr;
11 Chwefror; 3 Mawrth; 17 Mawrth.

Cynhelir y nosweithiau yn Neuadd Rhydypennau rhwng 7 a 8.30 o'r gloch.

Yn ogystal, gobeithir trefnu noson "aros i fyny drwy'r nos" yn ystod hanner tymor er mwyn codi arian at elusen. Bydd hynny yn festri'r Garn.

***Croeso cynnes i bawb – oedran Blwyddyn 6+***

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Zoe Jones, Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuenctid (zoejones34@gmail.com neu 01970 611510)





Bedyddiwyd Charlie Lewis Bates, mab bach Huw a Nia Bates, brawd bach Seren, ac ŵyr John a Rhian Jones-Steele, gan y Gweinidog, ddydd Sadwrn, 7 Tachwedd, yng Nghapel y Garn, a Heledd Anwen, merch Euryl a Bethan Rees, chwaer fach Llew, ac wyres Alun a Margaret Rees, yn ystod y gwasanaeth fore Sul, 15 Tachwedd.



## Cofio Canrif




Nos Fawrth, 16 Chwefror 2016, am 7.30 o'r gloch, cynhelir noson i nodi canmlwyddiant cyngerdd arbennig a gynhaliwyd yn y Garn union gan mlynedd yn ôl. Cymerwyd rhan yn y cyngerdd hwnnw gan nifer o gerddorion o Wlad Belg oedd wedi cael lloches yn ardal Aberystwyth ar ôl gorfod ffoi o'u gwlad yn sgil y Rhyfel Byd Cyntaf, ac roedd yr elw tuag at Ysbyty'r Groes Goch, Aberystwyth.

Bydd cyflwyniad byr i hanes y cerddorion hyn gan Dr Rhian Davies, Cyfarwyddwraig Gŵyl Gregynog, sydd wedi gwneud ymchwil i'r hanes, a bydd artistiaid lleol yn cyflwyno rhai o'r caneuon a'r adroddiadau a gafwyd yn y cyngerdd yn 1916. Bydd Siôn Meredith hefyd yn sôn am sefyllfa rhai ffoaduriaid sydd mewn amgylchiadau tebyg heddiw, ac yna bydd cyfle i bawb gymdeithasu a blasu bwyd 'gwahanol' ar y diwedd.

Mynediad am ddim ond gwneir casgliad tuag at elusen sy'n cynorthwyo ffoaduriaid heddiw. Trefnir y noson gan Bwyllgor y Prosiect 'Cofio a Myfyrio'.

Croeso cynnes i bawb.

Prosiect diweddaraf Grŵp Help Llaw Capel y Garn, dan arweiniad Mrs Bethan Jones a Mrs Shân Hayward, yw cefnogi'r elusen Water Aid. Trefnwyd stondin llyfrau ail-law ganddynt a rhoddwyd potel i ddal arian mân yn y festri.

Gwnaed casgliad yng Ngwasanaethau Diolchgarwch y Chwiorydd a'r Ofalaeth tuag at yr ymgyrch, a chyflwynwyd siec o £500 i'r elusen.

Mae'r ymgyrch bwysig hon yn parhau – a'r botel yn dal yn y festri i gasglu unrhyw newid mân sydd gennych.

Hefyd, bydd y Grŵp yn falch o dderbyn eich stampiau oddi ar amlenni eich cardiau Nadolig, &c. Cofiwch adael ymyl o tua hanner centimetr o amgylch y stampiau, a fydd yn cael eu cyflwyno i Oxfam.

Os oes gennych hen sbectolau yn llechu yng nghorneli droriau, beth am eu hailgylchu a'u cyflwyno tuag at Vision Aid – mae bocs ar gael yn y festri.

Mae'r Grŵp Help Llaw yn dal i gyfarfod am 2 o'r gloch ar brynhawn Mercher (ac eithrio'r dydd Mercher cyntaf yn y mis), ac mae croeso i unrhyw un droi i mewn am baned a sgwrs – a chydweithio i gyfrannu at elusen hefyd.

Am ragor o wybodaeth am ymgyrchoedd y Grŵp, cysylltwch â Bethan (611502) neu Shân (828268).

Diolch am eich cefnogaeth.

**Plant mewn Angen**

Bore Sul, 15 Tachwedd, cynhaliwyd stondin gacennau gan rieni a phlant Ysgol Sul Bow Street yn festri'r Garn yn dilyn y gwasanaeth. Gwerthwyd y cacennau er budd Plant mewn Angen, a chodwyd y swm o £62.66. Diolch i bawb fu'n brysur yn coginio ac yn trefnu.

# Ionawr

*Blaenor y Mis: Marian Beech Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Eddie Jenkins / Alan Wynne Jones*

*Bydd yr Ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel y Garn*

**3** Oedfa dan arweiniad y Parch Elwyn Pryse am 10 o’r gloch
Cwrdd Gweddi Dechrau’r Flwyddyn am 5 o’r gloch

6 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o’r gloch
‘O Faes y Garn i Vancouver’ gyda Marian Beech Hughes

8 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 2 o’r gloch

**10** Parch Adrian Williams

15 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o’r gloch
Noson yng nghwmni Ruth Jên, Tal-y-bont


**17** Bugail
Oedfa gymun yn y bore
Yn ystod oedfa’r bore cynhelir pleidlais ar ethol blaenoriaid newydd i’r Eglwys

**24** Parch John Gwilym Jones

31 Oedfa dan ofal aelodau’r eglwys am 10 o’r gloch
Oedfa’r hwyr i’w threfnu

Tydi sy’n deffro’r adar
i flaenu’r wawr â chân,
O deffro ni i’th foli
bob dydd â chalon lân.

T. Elfyn Jones



## Chwefror

*Blaenor y Mis: Dewi G. Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: D. Elystan Morgan / Vernon Jones*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel Noddfa*

3 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o’r gloch
‘Hen Enwau Aberystwyth’ gyda Carwen Fychan

**7** Oedfa’r bore yng Nghapel Noddfa am 10 o’r gloch
Oedfa’r hwyr yn y Garn am 5 o’r gloch
dan arweiniad y Barch Judith Morris

**14** Dr Rhidian Griffiths

16 Cofio Canrif am 7.30 o’r gloch –
noson i gofio canmlwyddiant cyngerdd arbennig
a gynhaliwyd yn y Garn ar 16 Chwefror 1916:
cyflwyniad i’r hanes a sefyllfa ffoaduriaid heddiw
ac eitemau o’r rhaglen wreiddiol gan artistiaid lleol
Mynediad am ddim ond gwneir casgliad tuag at elusen

19 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30
‘Bro fy Mebyd’ gyda Brenda, Iestyn a Gruffydd Aled

**21** Bugail
Oedfa gymun yn y bore

**28** Oedfa Gŵyl Ddewi’r Ofalaeth
dan arweiniad y Bugail
Capel y Garn am 10 o’r gloch



## Mawrth

*Blaenor y Mis: D. Elystan Morgan*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G. Hughes / Marian B. Hughes*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel y Garn*

4 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
Cyfarfod Gweddi Byd-eang y Chwiorydd
Thema: 'Derbyniwch blant, derbyniwch fi'

**6** Parch Ddr John Tudno Williams

**13** Parch Ddr Goronwy Prys Owen

18 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7 o'r gloch
yn ysgoldy Bethlehem, Llandre
'Orig yng nghwmni Hedd Bleddyn'

**20** *Sul y Blodau*
Bugail
Oedfa gymun yn y bore
Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre



25 Oedfa bore'r Groglith dan arweiniad y Bugail
Capel Rehoboth, Taliesin, am 10 o'r gloch

**27** *Sul y Pasg*
Oedfa Gymun Basg yr Ofalaeth dan arweiniad y Bugail
Capel y Garn am 10 o'r gloch

Dy nerth ar ein daear, O Arglwydd y wyrth,
ddeisyfwn i dreiglo y meini o'r pyrth,
dy nerth i gyfannu rhwygiadau yr oes,
y nerth a goncwerodd waradwydd y groes.

Vernon Jones



## Adroddiad am waith Chwiorydd Cenhadol Sasiwn y De

## Thema'r flwyddyn:
## 'Mewn llawenydd fe dynnwch ddŵr o ffynhonnau iachawdwriaeth' (Eseia 12:3)

### Encil Trefeca

Ddydd Mawrth. 15 Medi, cynhaliwyd Encil Chwiorydd Sasiwn y De yn Nhrefeca. Roedd nifer dda wedi dod ynghyd o wahanol ardaloedd yng nghanolbarth a de Cymru. Pa le gwell i gynnal encil nag yn awyrgylch tangnefeddus Trefeca a'i gyfoeth o hanes? Arweinydd yr encil eleni oedd y Barchedig Beti-Wyn James, Caerfyrddin, a llywyddwyd gan Mrs Ina Tudno Williams, Llywydd Sasiwn Chwiorydd y De.

Yn dilyn y croesawu a'r defosiwn, galwyd ar Sarah Morris i gyflwyno'r tri phrosiect a fabwysiadwyd gan adran y chwiorydd ar gyfer y flwyddyn sydd yn deillio o'r thema 'Mewn llawenydd fe dynnwch ddŵr o ffynhonnau iachawdwriaeth' (Eseia 12, adnod 3). Trosglwyddwyd gweddill y diwrnod i ofal Beti-Wyn. I agor y ddwy sesiwn cafwyd cyfnod tawel o fyfyrdod a chyfle i ymdawelu gyda chymorth cerddoriaeth dawel a golygfeydd ar y sgrin yn gefndir i adnod neu linell o emyn.

Dewisodd Beti-Wyn y thema 'Gemau'. Y diamwnt oedd gem y bore. Gyda chymorth effeithiol y sgrin, cyflwynodd y pedair elfen sydd yn hanfodol i'r diamwnt – y modd y torrir ef, ei bwysau, ei burdeb a'i liw. Trosglwyddwyd y nodweddion hyn i'r cwestiynau a osodwyd i'r grwpiau i'w trafod. Gem y prynhawn oedd y perl. Darllenwyd y ddameg am y perl gwerthfawr a dysgwyd bod y perl yn cael ei greu o ddeunydd di-werth, ei fod yn tyfu'n araf, yn werthfawr a phrydferth ac yn adlewyrchu goleuni. Trosglwyddwyd y nodweddion hyn i'r cwestiynau am yr Eglwys.

Diolchwyd i Beti-Wyn am baratoi mor fanwl ar ein cyfer ac am ei harweiniad yn ystod y dydd ac i staff Coleg Trefeca am eu croeso a'u cymorth parod. Cafwyd diwrnod bendithiol iawn. Wrth ffarwelio a throi am adref roedd delweddau'r gemau yn fyw yn y cof a'r cyfeillgarwch a'r cynhesrwydd a brofwyd yn ein cynhesu.

*Eleri Davies* (Ysgrifennydd Sasiwn Chwiorydd y De)

## Wystog

Ar brynhawn hyfryd o haf hwyr ddechrau mis Hydref, pleser fu croesi'r Frenni Fawr a disgyn i bentref Wystog o Geredigion a Gogledd Penfro i gyfarfod blynyddol Chwiorydd yr Henaduriaeth yng nghapel hynafol Wystog, Penfro. Llywyddwyd yr oedfa gan y Llywydd presennol, y Barchedig Llunos Gordon. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan chwiorydd yr ofalaeth a chroesawyd ein siaradwraig wadd i'n hannerch, sef Mrs Bethan Richards, Abertawe. Priodol iawn fu i Bethan sôn am ei hatgofion cynnar o'r maes cenhadol yn Shillong oherwydd iddi gael ei geni yno ac yna'n ddiweddarach am ei hymweliadau cyson â'r ardal fel cenhades / athrawes. Dangoswyd nifer o luniau ac enghreifftiau o wisgoedd traddodiadol yn ystod y cyflwyniad teimladol ac ysbrydoledig iawn. Diolchwyd yn gynnes i Bethan ac yna ymunodd pawb i fwynhau te ardderchog a barotwyd gan chwiorydd yr ofalaeth.

## Gwybodaeth bellach

Cynhelir cyfarfod y Dosbarth yng nghapel Bronant ar 16 Ebrill 2016 am 2.30 o'r gloch, a'r siaradwraig fydd y Barchedig Nan Powell-Davies.

Cynhelir y Sasiwn yng Nghapel Morfa, Cydweli, ar 19 Mai 2016. Bydd y Barchedig Gwenda Richards, Caernarfon, yn annerch ar ei hymweliad ddechrau 2016 â Shillong a'r Barchedig Jill Harries ar Fugeiliaid y Stryd.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael copi o'r Bwletin Cenhadol diweddaraf sydd wedi ei ddosbarthu i'r eglwysi gan Eleri Davies.

Llongyfarchiadau calonnog a phob bendith i'r Barchedig Nerys Ann Brown, a ordeiniwyd i'r offeiriadaeth yn Eglwys Gadeiriol Ninian Sant, Perth, ar 15 Tachwedd.



## *Newyddion Capel Seion*

### Ysbyty Dr Gordon Roberts, Shillong, India

Bore Sul, 8 Tachwedd, am 11 o’r gloch yn Seion cynhaliwyd Bore Coffi a Stondin gacennau a bwydydd eraill i godi arian mewn ymateb i’r apêl arbennig hon. Teulu Maes y Delyn, Aberaeron, sef Rhian Dafydd, David, Swyn, Eos a Celt, fu’n gyfrifol am ddarparu’r coffi a gweini wrth y byrddau. Diolch am y gefnogaeth hael iawn, i’r rhai oedd yn bresennol ar y bore ac i’r rhai a anfonodd gyfraniadau. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth agoriadol gan Eirlys Jones a John Gwyn Jones, a diolch i Eirlys Williams am yr arddangosfa yn darlunio hanes yr Ysbyty yn Shillong. Anfonwyd adroddiad am y bore ynghyd â lluniau o’r arddangosfa a’r rhai oedd yn bresennol at Dr David Tariang, prif feddyg yr Ysbyty yn Shillong, India. Mor hawdd yw cyfathrebu dros y We y dyddiau hyn!!

Llongyfarchiadau gwresog i Ann a Dan Jenkins, Delfan, ar ddod yn hen fam-gu a hen dad-cu i’w gorwyr, Oliver. Dymuniadau gorau i’r teulu i gyd a gwellhad buan a llwyr i Ann a Dan. Yr un yw ein dymuniad i nifer o’n haelodau a chyfeillion sydd yn anhwylus ar hyn o bryd – boed adref, mewn ysbyty neu mewn cartrefi gofal.

Hoffem ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i’n haelodau a’n cyfeillion i gyd.



Apêl Ysbyty Dr Gordon Roberts, Shillong


**Cymdeithas y Paith**

Agorwyd y tymor ym mis Medi pan wnaeth Megan Lewis, Sarnau Fawr, drwy gyfrwng lluniau a sgwrs adrodd hanes ei thaith ddiddorol dros ben i Batagonia. Roedd hi yn un o gwmni o ddeuddeg o Ffermwyr Ifainc dros Gymru a gafodd eu dewis i fynd yno. Ym mis Hydref daeth Arwel 'Rocet' Jones, Aberystwyth, atom i arwain cwis a chawsom gwmni aelodau o Gymdeithas y Cwm. Ffurfiwyd tri thîm i chwysu dros gwestiynau heriol iawn, a llongyfarchiadau i'r Cwm am ddod yn fuddugol!! Ac ym mis Rhagfyr daeth Elen Pencwm atom i arwain trafodaeth ar ein hatgofion am y Nadolig.

## *Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth*

Ein gŵr gwadd yn y cyfarfod brynhawn Mawrth, 13 Hydref, oedd Dr Rhidian Griffiths, Aberystwyth. Teitl ei sgwrs oedd 'Y Melys Lais', sef yr enw a roddwyd i ddisgrifio'r tenor o Gymro, David Lloyd. Cafodd David Lloyd ei eni yn Nhrelogan yn 1912, a bu'n enillydd cyson am ganu yn yr eisteddfodau. Gwnaeth argraff fawr ar y byd cerddorol ar draws y byd, ac mae ei lais swynol i'w glywed ar nifer o recordiau. Yn ystod y prynhawn, clywyd ef yn canu aria o'r 'Magic Flute', 'Annabel Lee', 'Wyt ti'n cofio'r lloer yn codi?', a charol Nadolig. Diolchwyd i Dr Rhidian Griffiths am brynhawn diddorol iawn gan Eiriona Metcalfe, a mwynhawyd te a chacennau ar y diwedd wedi eu paratoi gan Ann Humphreys.

Croesawyd Hywel Wyn Edwards, yr Wyddgrug, i'r cyfarfod a gynhaliwyd brynhawn dydd Mawrth, 10 Tachwedd. Cafodd ei eni yn Nhaliesin, a chafwyd prynhawn difyr wrth wrando arno'n sôn am ei ddyddiau cynnar yn yr ardal, ac ar ôl treulio blynyddoedd fel athro, bu'n gweithio fel Trefnydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Diddorol oedd clywed am rai o'r digwyddiadau difyr a ddigwyddai yn y cefndir na ddeuai'r cyhoedd i wybod amdanynt. Mwynhawyd te a bisgedi wedi eu paratoi gan Non Griffiths ac Eirlys Jones ar y diwedd.




**Estyn Llaw**
**366 o bytiau sy'n hwb i'r galon**

Cyfrol o bytiau difyr, un ar gyfer pob diwrnod o'r flwyddyn – pytiau a fydd yn hwb i'r galon, yn codi gwên ac yn procio'r meddwl.

Golygwyd gan Geraint Lloyd Owen. Cyhoeddwyd gan Wasg y Bwthyn. Pris: £9.95

## *Newyddion o Ben-llwyn*

Bu cyfnod yr hydref yn un prysur i blant yr ysgol Sul gan iddynt gymryd rhan yng ngwasanaeth Sul y Teulu ar 6 Medi, dan arweiniad ein Gweinidog, a hefyd yng ngwasanaeth diolchgarwch y capel ar 23 Hydref. Ein cennad y noson hon oedd y Parch Carwyn Arthur. Cafodd y plant wers arlunio yn ogystal â hanes y ddau ddisgybl ar y ffordd i Emaus, a sut na fu iddynt adnabod yr Iesu er iddo gyd-gerdded â hwy am ran o'r daith. Cofiwn i'r hanes orffen yn fuddugoliaethus wrth i feddyliau'r ddau gael eu hagor fel eu bod yn deall yr ysgrythurau. Dyma'r darlun gorffenedig:




Braf iawn oedd cael cynulleidfa niferus yn ymuno â ni yn yr awydd i ddiolch i'w Creadwr am y cynnal a'r cadw fu ar bob un ohonom dros y flwyddyn a aeth heibio. Ein Gweinidog, y Parch Wyn Morris, oedd llywydd y noson.

Carem, fel Eglwys, ddymuno Nadolig dedwydd a blwyddyn newydd lawn bendithion i'n holl aelodau, pell ac agos, heb anghofio aelodau'r ofalaeth gyfan hefyd. Na foed i fateroliaeth yr Ŵyl guddio'r Baban a anwyd yn y preseb o'n gŵydd. Diolch i'n Gweinidog am bob bendith a dderbyniasom oddi ar ei law yn ystod 2015. Bydded i ni addunedu ar ddechrau 2016 i roi mwy o'n hamser a'n hegni er hyrwyddo Teyrnas Dduw a dod i sylweddoli mai ynddo Ef yr ydym yn byw, yn symud ac yn bod.

Ymhlith holl ryfeddodau'r nef
  hwn yw y mwyaf Un –
gweld yr anfeidrol, ddwyfol Fod
  yn gwisgo natur dyn.

*Heulwen Lewis*

## *Cymdeithas Lenyddol y Garn*

Roedd Festri'r Garn yn orlawn nos Wener, 27 Tachwedd, pryd cynhaliwyd cyfarfod i goffáu'r diweddar Athro John Rowlands a fu farw ddechrau'r flwyddyn eleni ac a fu yn organydd yn y Garn pan oedd y teulu'n byw yn Nôl Bebin. Hyfryd oedd gweld bod ei weddw, Eluned, a'u dau fab, Dyfed a Huw, wedi teithio i ymuno â ni yn y cofio. Yr Athro Gruffydd Aled Wlliams oedd yn llywio'r noson a bu Bleddyn Huws, Mihangel Morgan, Robin Chapman a Marged Haycock yn rhannu eu hatgofion a'u gwerthfawrogiad o waith yr ysgolhaig mwyn a dawnus, y beirniad llenyddol treiddgar, y colofnydd tra gwybodus am fwyd a gwin, a'r awdur nofelau poblogaidd. Diolchwyd i'r cyfranwyr am noson gofiadwy gan Gadeirydd y Gymdeithas, Marian Beech Hughes.







Cafwyd noson hyfryd o gartrefol ac amrywiol o garolau ac adloniant Nadoligaidd gan Alun John, Alan Wynne Jones a Geraint Thomas, a'u cyfeilydd Kathleen Lewis, yng nghyfarfod mis Rhagfyr o'r Gymdeithas – yn ogystal ag ymweliad gan ddau o Gendarmes hefyd!



## *Cymdeithas Chwiorydd y Garn*

Fore Sadwrn, Tachwedd 28, roedd y festri yn llawn bwrlwm pan gynhaliodd y Chwiorydd eu cyfarfod Croeso a Chacen blynyddol. Wrth dorri Cacen yr Adfent diolchodd y Parch Wyn Morris yn gynnes iawn i Gartref Tregerddan a oedd, eleni eto, wedi darparu'r gacen hardd a blasus ar gyfer yr achlysur. Roedd Iestyn Hughes hefyd wedi paratoi cwis lluniau yn cynnwys adrannau ar Geredigion, Cymru, a gweddill y byd. Braf oedd gweld byrddeidiau o bobl a'u pennau ynghyd yn rhannu gwybodaeth a dyfaliadau am y gwahanol lefydd. Alan Wynne ac Ann Jones gafodd y sgôr uchaf. Codwyd £450 tuag at Fanc Bwyd y Jiwbilî.

Brynhawn Mercher, Rhagfyr 2, daeth Shân James, Penbanc, Penrhyn-coch, i'r te misol i ddangos ei chrefft yn addurno cacennau. Wrth ei chyflwyno llongyfarchodd Llinos Dafis hi ar ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth addurno cacennau y Ffair Aeaf yn Llanelwedd, ar y testun 'Winter Wonderland', a braint oedd cael gweld ei chyfansoddiad arobryn. Treuliwyd awr ddifyr wedyn yn gwylio meistres ar ei chrefft yn gweithio ac yn disgrifio'r hyn roedd hi'n ei wneud, a hynny mewn modd tawel a digyffro. Cafwyd prynhawn difyr a llesol. Merched y Dole fu wrthi'n paratoi a gweini'r te. Margaret Rees arweiniodd y defosiwn, gyda Kathleen Lewis wrth yr organ.



Y Gweinidog yn torri Cacen yr Adfent, rhodd Cartref Tregerddan, gyda Llinos Dafis, Llywydd Pwyllgor y Chwiorydd, a Kathleen Lewis, sy’n trefnu ac yn cyfeilio yn y gwasanaethau a gynhelir yng Nghartref Tregerddan bob prynhawn Sul.







Rhai o blant Ysgol Gynradd Rhydypennau yn ymarfer ar gyfer eu cyngerdd Nadolig a gynhaliwyd yng Nghapel y Garn nos Iau, 10 Rhagfyr.

***Swyddogion yr Ofalaeth***
*Cadeirydd*: Tegwyn Lewis, Madog
*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH;
johnleeding@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 13 Mawrth:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
☽01970 828026
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
☽01970 828662
marian_hughes@btinternet.com